# Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

**Mrs Alwen M Bowen**
Pennaeth
Headteacher

**Mrs Michelle Barry**
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug
Aberfan
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 4NT

Rhyd-y-grug.cymru
Ffôn / Telephone: 01685 351818

Tyfu Dysgu Llwyddo – Grow Learn Succeed


14.5.24

## Penodiad Dirprwy Bennaeth

Annwyl rieni / warcheidwaid,

Mae'n bleser gennym gyhoeddi penodiad Miss Ceri Davies fel Dirprwy Bennaeth newydd yr ysgol o fis Medi 2024, yn dilyn dyrchafiad Mrs Michelle Barry i swydd pennaeth Ysgol Gymraeg Abercynon.

Cynhaliwyd proses gaeth a thrylwyr iawn i fodloni meini prawf gofynnol ar gyfer ymgeiswyr i'r swydd er mwyn i'r Dirprwy Bennaeth newydd allu profi eu gallu i gynnal, a hefyd datblygu ar, y safonau addysgol uchel sydd eisoes wedi eu sefydlu yn yr ysgol.

Yn dilyn proses gyfweld deuddydd heriol iawn yn cynnwys Mrs Bowen, Llywodraethwyr, myfyrwyr, ynghyd ag uwch gynrychiolwr o'r Consortia Gwella Ysgolion, cytunwyd yn unfrydol bod Miss Davies yn bodloni ein gofynion yn dda. Daeth Miss Davies drosodd fel person hawddgar, proffesiynol a deallus.

Mae Miss Davies ar hyn o bryd yn Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Santes Tudful ac yn ddiweddar wedi derbyn adborth ffafriol iawn gan Estyn am ei gwaith yn datblygu prosesau Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Edrychwn ymlaen at gydweithio â hi er lles a datblygiad addysgol ein hysgol ni yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Wrth rannu'r newyddion hwn gyda chi hoffem hefyd ddiolch yn ddiffuant i Mrs Barry am ei gwaith diflino dros y blynyddoedd diwethaf a'i hangerdd wrth ddatblygu ac arwain ar Gwricwlwm Rhyd y Grug, sef ein Llwybr Llwyddo. Dymunwn yn dda i Mrs Barry wrth iddi ymgymryd â'i swydd newydd ar ddiwedd yr haf.

Dymuniadau gorau,

**Mr Rheinallt Williams, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Mrs Alwen Bowen, Pennaeth**

# Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug

**Mrs Alwen M Bowen**
Pennaeth
Headteacher

**Mrs Michelle Barry**
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug
Aberfan
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 4NT

Rhyd-y-grug.cymru
Ffôn / Telephone: 01685 351818


Tyfu Dysgu Llwyddo – Grow Learn Succeed

14.5.24

**Appointment of Deputy Headteacher**

Dear parents / guardians,

We are pleased to announce the appointment of Miss Ceri Davies as the new Deputy Head of the school from September 2024, following the promotion of Mrs Michelle Barry to the position of headteacher of Ysgol Gymraeg Abercynon.

A strict and very thorough process was carried out to meet the required criteria for candidates for the post so that the new Deputy Headteacher could prove their ability to maintain, and also develop on, the high educational standards that have already been established in the school.

Following a very challenging two-day interview process involving Mrs Bowen, Governors, students, together with a senior representative from the School Improvement Consortia, it was unanimously agreed that Miss Davies meets our requirements well. Miss Davies came over as an amiable, professional and intelligent person.

Miss Davies is currently an Additional Learning Needs Coordinator at Ysgol Gymraeg Santes Tudful and has recently received very favourable feedback from Estyn for her work developing the school's Additional Learning Needs processes. We look forward to working with her for the benefit and educational development of our school in the years to come.

In sharing this news with you we would also like to sincerely thank Mrs Barry for her tireless work over the past few years and her passion in developing and leading the Rhyd y Grug Curriculum, our Pathway to Success. We wish Mrs Barry well as she takes up her new post at the end of the summer.

Best wishes,

**Mr Rheinallt Williams, Chair of Governors**

**Mrs Alwen Bowen, Headteacher**